

Gweithgaredd 9

Taflen adnoddau 1

Teulu Ewyrth Ali taflen waith

Dad	Babi	Merch
Ewyrth Ali	Bachgen	Mam-gu
Mam		

Pwy ddylai fynd a phwy ddylai aros?

Beth ddylen nhw fynd ag ef gyda nhw? Rhestrwch 10 eitem.

Gweithgaredd 9

Taflen adnoddau 2

Stori Tŷ Ewyrth Ali

RHAN 1 YR ERLEDIGAETH

Rydym yn byw yn nhŷ Ewyrth Ali yn y ddinas.

Mae Ewyrth Ali yn ddydd crefyddol a hyddysg iawn. Cafodd ei garcharu am ei syniadau ar un adeg. Gwnaeth rhywun ddolur iddo ac yn awr mae'n hercian wrth gerdded. Mae Dad yn gweithio i bapur newydd ac mae'n arweinydd undeb y newyddiadurwyr – sef sefydliad lleol gweithwyr papurau newydd. Mae'n gyrru hen gar. Mae mam adref gyda'r babi. Merch 10 mlwydd oed ydw i sy'n hoffi mathemateg a chanu. Mae fy mrawd yn 9 oed. Mae e'n chwarae pêl droed ac yn hoff o wyddbwyll. Mae'n rhaid i mam-gu ddefnyddio ffrâm Zimmer ers iddi gael strôc.

Y mis diwethaf cymerwyd ein gwlad drosodd gan y fyddin yn dilyn gwrthryfel milwrol (mae hyn yn golygu bod y fyddin wedi taflu'r llywodraeth allan a chymryd ei lle). Newidiodd pob dim. Gwelsom ni filwyr ar y strydoedd. Clywsom ni ddrylliau'n tanio. Cymerwyd pobl i ffwrdd mewn lorïau. Gosodd y fyddin hwyrghloch felly roedd yn rhaid i bawb aros yn eu tai o 9 o'r gloch y nos. Maent wedi cymryd drosodd y teledu a'r radio ac yn chwarae cerddoriaeth filwrol drwy'r dydd. Mae'n anodd gwybod beth sy'n digwydd. Mae rhai undebau llafur, gan gynnwys un Dad, wedi cael eu gwahardd.

Yn y dref, mae rhai o'r arweinwyr crefyddol 'wedi mynd ar goll', ac mae'n ddirgelwch i bawb. Mae tri o ffrindiau Dad yn y gwaith wedi 'diflannu'. Mae pobl yn dweud bod y fyddin wedi eu cipio. Ble allan nhw fod? Does neb yn gwybod.

Rhododd rhywun boster ar y ffens ger ein tŷ ni. Roedd y llinell ar ben y poster yn dweud: 'Y Gelyn Oddi Mewn'. Oddi tano roedd rhestr o enwau ac roedd enw Dad ac Ewyrth Ali arno. Ar y gwaelod roedd llun o benglog a dryll Kalashnikov. Arwyddwyd y poster gan Gyfeillion y Famwlad. Pwy yw'r rhain? Does neb yn gwybod. Rhwygodd Mam y poster i lawr.

Yr wythnos ddiwethaf daeth milwyr i'n hysgol ni i chwilio am ŵr ein cynorthwyraig ginio. Doedd e ddim yno. Felly dyma nhw'n ei llusgo hi a dau o'i phlant i ffwrdd ac roedd hi'n gweiddi: 'Ond dydyn ni ddim wedi gwneud unrhyw beth!'

Ddoe clywodd fy mrawd y blwch llythyron yn clecian. Rheddodd lawr llawr yn ei byjamas. Cododd ddarn o

gerdyn crychlyd o'r llawr â neges wedi ei wneud allan o lythyron a geiriau wedi eu torri allan o bapur newydd ac wedi eu gludo arno. Roedd yn dweud: 'Heno amdani. Byddwch farw, wehilion y gelyn.' Roedd wedi ei arwyddo gan Gyfeillion y Famwlad.

Cyflwynwch y neges PowerPoint Bygythiad i Fywyd (ar y CD) ond peidiwch â'i adael yn cael ei ddangos.

Rhedodd fy mrawd allan i'r stryd, ond doedd neb yno. Pwy yw'r bobl hyn sy'n codi ofn ar bawb? Beth mae hyn yn ei feddwl?

Canodd ein ffôn ni heddiw. Ewyrth Ali gododd y ffôn. Dywedodd llais bod y lle mae Ali'n gweddi ynddo ar dân. 'Ac maen nhw'n mynd i fomio eich tŷ chi hefyd. Ewch allan.' Wedyn aeth y ffôn yn dawel.

BANG! Dyma ni'n clywed y ffrwydradau. Mae tanciau'r fyddin yn Sgwâr y Dre. Mae gwifren bigog yn cau pob ffordd allan o'r dref. Mae milwyr yn archwilio'r traffig. Mae'r orsaf ar gau. O Na! Maen nhw'n mynd o dŷ i dŷ ac yn arestio pobl.

Mae Dad yn dweud ein bod ni mewn perygl. Beth ddylem ei wneud nawr? Mae Ewyrth Ali'n pendroni a allwn ni ddianc dros y ffin i'r wlad gyfagos a cheisio lloches yno fel ffoaduriaid. Ond mae hynny'n siwrnai bum diwrnod o gerdded i ffwrdd, drwy anialwch twym a thros fynyddoedd. Ond oni fyddai'n llawer mwy peryglus i ni aros? A beth ddylem fynd gyda ni?

STOPIWCH y stori

Tasg 1: Pwy ddylai fynd?

Rhowch ysgrifbin a thaflen waith *Teulu Ewyrth Ali* i bob grŵp. Mae'n rhaid iddynt benderfynu pwy ddylai fynd a phwy ddylai aros (os o gwbl). Mae ganddynt bum munud i benderfynu: Pwy yw'r gwanaf? Pwy fydd yn ei chael hi fwyaf anodd i deithio ac arafu'r grŵp. Dylai'r grwpiau drafod eu penderfyniadau a'u pryderon.

DECHREUWCH y stori unwaith eto

Yn y pen draw, mae fy nheulu'n penderfynu bod pawb yn mynd. Bydd rhaid i ni gerdded, yn y nos yn aml, dros yr anialwch ac ar draws tir peryglus ac i fyny dros y mynyddoedd oer i gyrraedd yr arfordir. A fyddwn ni'n llwyddo?

Gweithgaredd 9

Taflen adnoddau 2 parhad Tŷ Ewyrth Ali

Mae Mam-gu yn ein hatgoffa ni bod angen i ni gario popeth y bydd eu hangen arnom. Mae'n rhaid i ni bacio'r pethau angenrheidiol a'r darnau pwysig yn unig fydd eu hangen arnom i oroesi'r daith hir ac i groesi'r ffin yn ddiogel gan ddod yn ffoaduriaid. Mae Mam-gu yn dweud ei bod yn gallu clywed y fyddin yn dod i fyny'r stryd yn barod. Dewch! Brysiwch!

STOPIWCH y stori eto

Tasg 2: Beth ddylent fynd gyda nhw?

Rhaid i bob grŵp wneud rhestr o'r 10 peth hanfodol mae'n rhaid i'r teulu eu pacio ar gyfer eu taith ac i'w helpu i gyrraedd ar draws y ffin. Mae ganddynt dair munud i benderfynu beth sydd eu hangen arnynt.

DECHREUWCH y stori unwaith eto

Ar ôl taith anodd a brawychus cyrhaeddodd pob un ohonom y ffin, wedi blino, angen bwyd, yn ofnus ond yn fyw. Roedd y babi'n sâl. Roedd Mam-gu yn crio. Wedyn, daethom wyneb yn wyneb â'r Swyddog Mewnfudo a'r gwarchodlu. Roeddem yn ceisio dweud wrthynt ein bod am ddod yn ffoaduriaid yn eu gwlad nhw am ein bod ni mewn perygl yn ein gwlad ein hunain. Ond doedden nhw ddim yn ein credu ni.

'Profwch fod eich stori'n wir,' meddent. 'Efallai y gwnaethoch greu'r stori gyfan.' Dyma nhw'n agor ein bagiau. Gorfodwyd ni i lenwi ffurflenni nad oeddem yn eu deall. A fyddan nhw'n gadael i ni aros?

RHAN 2 RHEOLAETH FFINIAU

Yn y chwarae rôl hwn mae'r athro yn chwarae rhan y swyddog mewnfudo ar y ffin. Mae'r grŵp yn chwarae rhannau teulu Ewyrth Ali.

Gan chwarae rhan y Swyddog Mewnfudo, gofynnwch y cwestiynau canlynol i'r grwpiau:

- Pam ydych chi wedi dod i'r wlad hon?
- Ydych chi'n chwilio am waith newydd?
- Ydych chi'n ceisio symud yma am fod gennym ofal iechyd da ac ysgolion da?

Os ydy'r grwpiau'n dweud wrthynt chi eu bod yn ffoi rhag cael eu herlid, gofynnwch iddynt:

- Pa brawf sydd gennych eich bod yn ffoi rhag cael eich erlid?
- Beth sydd yn eich bagiau chi?

Archwiliwch eu rhestrau er mwyn gweld os ydynt wedi dod ag unrhyw dystiolaeth o'u herledigaeth gyda nhw yn eu bagiau... Os yw rhai o'r grwpiau wedi dod â'r llythyr sy'n bygwth eu bywydau neu'r poster ynglŷn â'r 'Gelyn Oddi Mewn', gofynnwch i'w archwilio. Ydyn nhw'n gallu profi ei bod yn wir, ac nid rhywbeth maent wedi ei ffugio?

Efallai bod rhai o'r grwpiau wedi cynnwys cylllell, neu ddryll neu ryw fath o arf ar eu rhestrau. Dywedwch wrthynt eich bod yn trefnu iddynt gael eu harestio rhag ofn eu bod yn bobl beryglus neu hyd yn oed derfysgwyr.

Ar ôl chwarae rôl, esboniwch mai ffug yw'r gweithgaredd hwn, ond er hyn, mae llawer o bobl sydd yn ffoi rhag cael eu herlid yn gorfod ymdrechu i brofi i swyddogion mewnfudo eu bod, fel ffoaduriaid yn haeddu cael eu helpu.